

Newyddion Ysgol Bro Ddyfi,
Machynlleth

Ein Bro



LUMEN NOBIS SIT SCIENTIA

Ysgol Bro Ddyfi

Gair gan y Pennaeth

Dyddiadau Allweddol

Bydd canlyniadau Safon Uwch/Uwch Gyfrannol yn cael eu cyhoeddi **ddydd Iau 18 Awst**. Disgwylir i'r myfyrwyr gasglu eu canlyniadau rhwng 9:00 y bore a 12:00. Bydd cyfle i drafod y canlyniadau ac ystyried y dyfodol, rhwng 1:00 a 3:00 y prynhawn.

Bydd croeso i rieni ddod i drafod. Cyhoeddir canlyniadau TGAU **ddydd Iau, 25**. Unwaith eto disgwylir i'r disgyblion ddod i mewn i nŵl eu canlyniadau rhwng 9:00 a 12:00 ac i ddod i'r ysgol b'nawn Iau neu ddydd Gwener rhwng 1:00 a 3:00 yng nghwmni eu rhieni i drefnu a thrafod y camau a'r cyrsiau nesaf.

Bydd yr ysgol yn ail ddechrau i ddisgyblion ddydd Llun, 5 Medi.

Bydd staff y swyddfa ar gael ddydd Iau a Gwener, Medi 1 a 2, os oes angen prynu gwisg ysgol.

Bydd y gwyliau hanner tymor **24-28 Hydref** a'r tymor yn dod i ben ar **20 Rhagfyr**.

Byddwch yn derbyn calendr llawn am y flwyddyn ym mis Medi i nodi dyddiadau pwysig o safbwynt rhieni a disgyblion.

Ymadael

Mae Miss Jo Harbidge yn ymadael ddiwedd y flwyddyn ysgol hon a hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith caled. Dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol. Rydym wedi penodi Miss Alice Haslam yn ei lle yn yr adran Saesneg ar gyfer mis Medi. Hoffwn ei llongyfarch

ar ei phenodiad a gobeithio y gwnaiff setlo i'n mysg yn fuan. Dymunwn yn dda hefyd i Gwenan Harris sydd yn ymadael eleni. Bu Gwenan yn hynod o weithgar yn hyrwyddo a chynnal nifer o weithgareddau 5X60 yn yr ysgol.

Newidiadau i'r Tîm Rheoli

Mae rhai newidiadau wedi eu gwneud i'r Tîm Rheoli gyda Mrs Haf ap Robert wedi ei phenodi fel pennaeth y chweched dosbarth, Miss Catrin Jones yn gyfrifol am bontio cynradd uwchradd a blwyddyn 7 a Mr Arwel Price yn cymryd cyfrifoldeb dros addysg alwedigaethol. Pob dymuniad da iddynt yn eu dyletswyddau newydd o fewn yr ysgol.

Manylion Rhieni

Mae'n bwysig fod yr ysgol yn cael gwybod am unrhyw newidiadau mewn manylion cyswllt rhieni: rhifau ffôn symudol, lleoliad gwaith, cyfeiriad neu unrhyw newidiadau eraill mewn amgylchiadau neu leoliad. Gofynnir yn garedig i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw newidiadau mor fuan â phosib.

Gobeithio y caiff pawb wyliau braf a difyr!

Yr eiddoch yn gywir

Dafydd M B Jones



Word from our Headteacher

Key Dates

Advanced and Advanced Subsidiary level results will be available on **Thursday, 18 August**. The students are expected to receive their results in person between 9:00 and 12:00. There will be an opportunity to discuss the results and to confirm future plans between 1:00 and 3:00 on the same day. Parents are welcome to accompany their children.

On **Thursday, 25 August**, the GCSE results will be published. Again, students are expected to collect their results in person between 9:00 and 12:00 and come to school from 1:00 to 3:00 that day or on the following day between 9:00 and 12:00 with their parents to confirm their next steps.

The school will re-open to pupils on Monday, 5 September.

Office staff will be available on September 1 and 2 if parents want to buy school uniform.

The half term will be during **24-28 October**, and the term will end on the **20 December**.

You will receive the calendar of important dates for parents and pupils for the whole year during September.

Departing

Miss Jo Harbidge will be leaving at the end of this school year and I would like to thank her for her hard work. I wish her well in the future. The school

has appointed Miss Alice Haslam to teach English from September. I would like to congratulate Miss Halsam on her appointment and hope that she will be happy at Bro Ddyfi. We also wish every success to Gwenan Harris who is leaving this year. Gwenan has been working tirelessly running numerous 5X60 activities for the school.

Changes to the Senior Management Team

The Senior management team has been re-structured with Mrs Haf ap Robert taking charge of the Sixth Form, Miss Catrin Jones will be taking responsibility for transition and year 7 and Mr Arwel Price for Vocational Education.

Parents' Details

It is important that the school is aware of any changes in parents' contact details: telephone numbers, work locations, address or any other changes in circumstances or location. Please notify the school of any changes as soon as they are made.

We wish you all a happy and exciting summer holiday.

Yours sincerely

Dafydd M B Jones



Machynlleth Phoenix Course

On Friday 1st of July, five pupils from Ysgol Bro Dyfi gave a demonstration of the skills they learned over the previous 4 days at Machynlleth Fire Station.

In front of parents, fire service personnel and School Staff, the youngsters showed their proficiency at ladder and hose drills. They also rescued a child dummy from the first floor of the drill tower.

Working with the pupils was School Technician, Jim Honeybill, who joined in as enthusiastically as anyone.

Specialist Youth Team worker Anne Robinson said 'I have worked on many of the Phoenix courses for the Fire Service and can honestly say this has been one of the most enjoyable'.

Community Safety Manager Tim Williams stated 'These young people have learned some valuable things this week. They have had lessons about Road Safety, they have crawled through smoke filled tunnels, they have seen the Fire Service Search and Rescue Dogs at work but most of all, they have enjoyed themselves'.

Assistant Head Teacher, Mrs Marie-Helene Thomas, was most impressed with the passing out parade. 'I can see how hard they have worked this week and the school is very proud of them'.

On Friday the youngsters (and Jim) were presented with their certificates by Watch Manager Steve Rowlands who said 'The improvement these young people have shown over this week is most impressive. This has been the first, of what I hope to be many, of these Phoenix courses at this Fire Station'.

The pupils completing the course were; Steffan Williams; Philip Roberts; David Jones; Tamara Sharp and Daniel Rowlands.



Gwobrwyo ar ôl cyrraedd 400 clod!

Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi llwyddo i ennill 400 clod yn ystod y flwyddyn! Allan o bawb oedd wedi llwyddo i gyrraedd 400 o bwyntiau clod, dewiswyd enw Lleu Bleddyn ar hap gan Mr Dafydd Jones i ennill beic newydd sbon! Llongyfarchiadau mawr iddo!

Pr rhai ohonoch nad oedd ddigon ffodus y tro hwn i ennill, cofiwch fod mis Medi yn flwyddyn newydd a bydd siawns arall i ennill yr holl wobrau a hynny drwy gynrychioli'r ysgol, gwaith dosbarth neu waith cartref da, gwella perfformiad i enwi ond rhai ffyrdd y gallwch ennill clod! Ewch amdani!

Congratulations to everyone who was successful in reaching 400 points! From those who were successful Mr Dafydd Jones selected 1 at random to win the top prize of a Bike! Congratulations Lleu Bleddyn!

To those of you who were not successful in winning this time, remember September is a new school year and you have another chance to get those points by representing the school, producing excellent work and improving your performance, to name only some of the many examples of ways you can collect points!



Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi llwyddo i ennill 400 clod!

Diolch Magnox Trawsfynydd!

Dymuna'r ysgol ddiolch yn fawr i Magnox, Trawsfynydd am eu cefnogaeth drwy roddi cyfrifiaduron newydd i'r ysgol yn rhad ac am ddim. Mae'r cyfrifiaduron yma wedi llwyddo i roi cyfle i'r adrannau Dyniaethau a Thechnoleg ddefnyddio TGCh i godi ansawdd y dysgu a'r addysgu a rhoddi cyfle i'r plant ddatblygu eu sgiliau TGCh yn eu gwersi.

Derbyniodd yr adran Wyddoniaeth 6 cyfrifiadur gan Magnox sydd yn cyfrannu at eu cwrs newydd - Gwyddoniaeth cymhwysol yn BL12 eleni. Bydd y cyfrifiaduron hyn yn sicrhau fod yr adnoddau fel peiriannau logio data ac ati yn gweld mwy o ddefnydd o fewn yr adran.

Mae'r adran Dechnoleg hefyd wedi llwyddo i ddatblygu eu defnydd o TGCh hynny unwaith eto trwy gymorth Magnox. Bydd y cyfrifiaduron hyn yn cael defnydd da dros ben i helpu CA3-5 yn eu gwaith ymchwil a dylunio gyda rhaglenni CAD ac oherwydd ceir cyfle i greu prosiectau o safon uchel.

Yn olaf, mae'r adran Ddyniaethau wedi llwyddo i dderbyn cyfrifiaduron hefyd. Rhydd hyn gyfle beunyddiol i'r disgyblion eu defnyddio yn eu gwersi.

Unwaith eto, diolch yn fawr!

The school would like to give a big "thank you" to Magnox Trawsfynydd for their support in donating computers to our school. These valuable resources will improve the quality of both the teaching and the learning experience of our pupils with the use of ICT in their lessons.

The science department has benefited from these computers by allowing greater use of data loggers in class. Also the new Applied Science students in Year 12 will be able to use the computers to further their studies within the Science lab instead of having to depend on the ICT Suites around the school.

The technology department was able to have a much needed upgrade to ensure that current Computer Aided Design software is able to be used in KS3-5, and also to help with the pupils research and design to continue creating excellent work.

Lastly, the humanities department also has benefited from much needed upgrade of computers in their ICT Suite which will enrich the pupils experience of using CT within their lessons.

Once again, thank you!



Ar ddechrau mis Mawrth aeth dosbarth Daearyddiaeth blwyddyn 12 i Fetws-y-Coed am ddiwrnod. Yno, ynghyd â gwneud gwaith maes cawsom ddiwrnod braf yn llawn hwyl yng nghanol harddwch Dyffryn Conwy. Bu Sion, Llion a minnau yn astudio effaith twristiaeth ar y pentref gan holi pobl leol ac ymwelwyr gyda Miss Pugh Jones. Gobeithiwn gael diwrnod gwaith maes arall yn fuan.

At the beginning of March the Geography year 12 class visited Betws y Coed. While there we had the opportunity to complete a field study. It was a brilliant day and we had a great experience in the middle of the beauty of the Conwy valley. Sion, Llion and myself were studying the effects of tourism on the village and questioning local people and visitors with Miss Anwen Pugh Jones. We hope to have another brilliant field study in the near future.

**Heledd Besent
(BI 12 / Yr 12)**

***Heledd Besent
(BI 12 / Yr 12)***



**Gwobrwyo
ar ôl
cyrraedd
200 clod!**

Gwobrwyo ar ôl
cyrraedd 200 clod!

Gwobr:
Camcorder



Urdd Ysgol Bro Ddyfi

Braf iawn yw cyhoeddi mwy o lwyddiant i adran yr Urdd Ysgol Bro Ddyfi. Nid yn unig ar lwyfan drwy ganu, actio neu lefaru y mae ein disgyblion yn llwyddo yng nghystadlaethau'r Urdd. Rhaid llongyfarch amryw o ddisgyblion a fu'n gweithio'n ddiwyd iawn drwy gynhyrchu a chreu amryw o wrthrychau deniadol iawn, boed yn waith ysgrifenedig, yn waith celf a chreffft neu waith trwy law cyfrifiadur. Daeth y canlynol i'r brig yn genedlaethol a llongyfarchiadau calonog iddynt oll;

Gwaith CAD (Blwyddyn 7,8 a 9)

Gwaith Lluniadu 2D (Blwyddyn 7 ac 8)

Cyfes o Brintiau Du a Gwyn (Blwyddyn 7, 8 a 9)

Gwaith CAD/CAM (Blwyddyn 7,8 a 9)

Rhyddiaith (Blwyddyn 8)

1af Branwen ap Dafydd Tomos;


2il Rhydian Price

2il Branwen ap Dafydd Tomos

2il Steffan Hywel Williams

3ydd Rhydian Price

2il Rhun Bleddyn



Y Ffreutur / The Canteen

Mae bwydydd lleol, rhai ohonynt yn organic, wedi bod ar y fwydlen yn Ysgol Bro Ddyfi fel rhan o brosiect gan Ganolfan Organic Cymru a gwasanaethau bwyd Cyngor Sir Powys.

Roedd Cig oen a llysiau yn cael ei ddilyn gan grymbl afal a chwstard ar gael i'r disgyblion a staff yr ysgol ynghyd a gwahoddedigion yn ffreutur yr ysgol. Roedd y cig oen wedi dod o Ddyffryn Dyfi, gyda gweddill y cynnyrch yn dod o Gymru.

Fe wnaeth aelodau o Grwp Maeth yr Ysgol helpu i ddylunio gwahoddiadau i'r gwestai a threfnu'r pryd tra'n cymryd y cyfle i dynnu sylw at ffreutur yr ysgol a chael cyfle i drafod bwyd ysgol gyda disgyblion eraill.

Trefnwyd y pryd gan brosiect Busnes Organic Gwell, sydd yn ceisio gwella darpariaeth o fwydydd organic i sefydliadau cyhoeddus.

Dywedodd Lucy Watkins sydd yn gweithio i Ganolfan Organic Cymru "Rydym yn gobeithio y bydd y prydau hyn yn gwneud i bobl feddwl pa fwydydd sydd ar gael yn eu hardal hwy, ac annog cysylltiadau rhwng gwmlniau lleol/organic. Mae hwn yn gyfle gwych i bobl gysylltu y bwyd ar eu platiau â sut y cafodd ei gynhyrchu."

Dywedodd Jane Powell, Swyddog Gwybodaeth Canolfan Organic Cymru: "Mae dysgu o le mae bwyd yn hanu yn rhan annatod o adeiladu marchnadoedd bwyd lleol iach. Rydym yn gobeithio bod y gweithgareddau hyn o gymorth i greu cysylltiadau rhwng ysgolion, ffermydd lleol a busnesau bwyd ym Mhowys."

Locally produced food, some of it organic, has been on the menu at Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth as part of a project organized by Organic Centre Wales (OCW) and Powys County Council catering services.

Roast lamb and vegetables, followed by apple crumble and custard, was served to students and guests in the secondary school's canteen. The lamb was sourced from the Dyfi valley, while the other ingredients were from Wales and the borders where possible.

Members of Ysgol Bro Ddyfi's new School Nutrition Action Group (SNAG) have been helping to organize the meal, designing invitations for the guests, and using it as an opportunity to draw attention to the school canteen and involve pupils in discussions about school food.

The meal was organized as part of OCW's Better Organic Business Links project, whose aims include improving the supply of organic produce to public institutions.

Lucy Watkins, Supply Chains Coordinator at OCW said: "We are hoping these meals will get people thinking about what food is available in their local area, and encourage links between public procurement and local/organic producers. It is a great opportunity for pupils to link the food on their plate with how it is produced."

Jane Powell, Information Officer at OCW, added: "Education about where food comes from is an essential part of building healthy local food markets. We hope that this event will help to build links between schools and local farms and food businesses in Powys."



E-ddysgu / E-learning



Mae'r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu ei defnydd o TGCh ymhellach dros y tri mis diwethaf. Ar hyn o bryd ceir 1 cyfrifiadur i bob 2.4 plentyn / myfyriwr yn yr ysgol sy'n rhoi'r cyfle i'n disgyblion ddatblygu sgiliau a chodi ansawdd y dysgu ymhellach nag erioed!

O fis Medi bydd ystafell gyfrifiaduron ddiwifr yn cael ei âdeiladu yn y llyfrgell i gynnig mwy o gyfleoedd i'r chweched dosbarth ddefnyddio'r system TGCh yn eu haddysg i adolygu neu gwblhau eu gwaith.

Mae'r wefan wedi cael ei huwchraddio i gyd-fynd efo'r dechnoleg newydd sydd yn cael ei datblygu i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar draws CA3—CA5. Enghreifftiau o hyn ydi'r Twitter i gyhoeddi negeseuon i rieni ac hefyd defnydd o'r mewnrwyd (*Intranet*) a Moodle er mwyn i blant gael adnoddau adolygu. Gweler intranet.broddyfi.co.uk neu moodle.broddyfi.co.uk am fwy o wybodaeth.

Er mwyn helpu plant a myfyrwyr gyda'u gwaith cartref bydd ystafell Gyfrifiaduron (yst 7) ar agor o fis Medi rhwng 8-9 yn y bore a 3:30-5 y prynhawn Ddydd Llun—Ddydd Iau .

Mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill buddsoddiad ar gyfer uwchraddio'r system TGCh ymhellach ar draws yr ysgol erbyn mis Medi. Bydd hyn yn sicr o gymorth i gynnal a gwella safon arbennig yr addysg sydd ym Mro ddyfi.

The school has been successful in developing ICT even further over the past 3 months. Currently the computer per pupil ratio is 2.4 which allows even greater use of ICT further enhancing the learning experience in the school .

From September there will be a new wireless computer classroom in the library which will allow the sixth form more flexibility and resources in their studies.

The school website has also been updated with the new communication systems which have been introduced with the aim of developing easier communications and include information from KS3– KS5. Examples include the is the school twitter to publish important messages and news to both parents and pupils. The use of the intranet and moodle has also given pupils the opportunity to download specific subject revision resources for the subject. See intranet.broddyfi.co.uk also moodle.broddyfi.co.uk for more information.

To help pupils and students with their homework the computer room (room 7) will be open from September 8 -9 in the morning and 3:30-5 in the evening Monday-Thursday.

The school has also succeeded in investing in the latest computers for classrooms throughout the school ready for September giving teachers and pupils further opportunity to use ICT in their lessons and further enhancing the high level of teaching already enjoyed at Bro Ddyfi !

Sioe Gelf–Art Show



Ymweliad Twm Morys ag Adran y Gymraeg

Fore dydd Iau 7 Ebrill, treuliodd myfyrwyr y Chweched Dosbarth sy'n astudio Cymraeg, orig ddir a buddiol yng nghwmni'r prifardd Twm Morys. Bu'n trafod gyda nhw rai o'i gerddi ei hun ynghyd â cherddi rhai o'r beirdd eraill sydd ar y maes llafur.

Yn y prynhawn cafodd Blwyddyn 7 gyfle i gydgyfansoddi gyda Twm a gwelir isod ffrwyth yr awen:

Calan Mai

Mae'r ŵyn i gyd yn brefu,
Mae'r haul yn dechre gwenu,
Mae bendith yn y gawod law
A'r gwartheg ddaw o'r beudy.
Mae hi'n Galan Mai!

Cytgan:

A dacw'r blode'n ffynnu,
Y saffrwm a'r briallu,
Clyche'r gog a blode'r gwynt,
Lle cynt doedd dim yn tyfu.

Mi ddaw'r gwenoliaid eto
I nythu dan y bondo.
Dacw'r gynta! Dacw'r ail!
Mae'r dail yn curo'u dwylo!
Mae hi'n Galan Mai!

Mae'r gwenyn bach yn suo,
Mae'r ciw yn dysgu fflio.
Mae'r grifft fel llygaid yn y ffos,
A sêr y nos yn sgleinio.
Mae hi'n Galan Mai!

Yn yr awel dyner
Does dim poen na phryder.
Galwch dacsî, neno'r tad:
Rwy'n mynd i wlad y mwynder!

Twm Morys & Blwyddyn 7
Ebrill 2011



Seremoni Wobrwyo

Cynhaliwyd y Seremoni Wobrwyo ddiwedd Ebrill ar ol iddi gael ei gohirio ym mis Rhagfyr oherwydd y tywydd garw. Cafwyd prynhawn hwyliog i longyfarch y disgyblion am eu gwaith caled. Dyma enillwyr y gwobrau:



Mr Myrddin yn cyflwyno'r Darian Mabolgampau i Nathan Egerton-Evans a Masara Sandells.

Mr Myrddin presenting the sports day shield to Nathan Egerton-Evans and Masara Sandells

Mr Price yn cyflwyno Cwpan Meirionna Jones am Ymdrech arbennig i Cameron Stickland-Jones



Mr Price presenting the Meirionna Jones trophy for special effort to Cameron Stickland-Jones



Lliwen Glwys dderbyniodd Gwpan Valerie James (dawnsio).

Lliwen Glwys won the Valerie James cup for dancing.

Keira Rhodes enillodd Gwpan J. Wyn Thomas (Dysgwr CA3) a Tara Barghouti enillodd Wobr Tiwtor dosbarth 7 Delyn.

Keira Rhodes won the J. Wyn Thomas cup (KS3 Learner) and Tara Barghouti won the class tutor award.



Award ceremony

The ceremony was postponed in December due to the adverse weather conditions. The ceremony was held on April 15th with a action packed afternoon of congratulating the pupils for their hard work. Here are the winners of the awards:



Anna Hennighan enillodd gwpan Nerys Williams (Ysgol a Chymuned) Poppy Woods gyda'i thystysgrif Gwobr Pwnc Drama, a rhai o'r disgyblion a enillodd wobrau yn y seremoni Pelen Eira Pinc yn ddiweddar.

Anna Hennighan won the Nerys Williams cup (School and community) Poppy Woods with her Drama subject award certificate and some of the pupils who won the "Pelen Eira Pinc" recently

Rhun Bleddyn a enillodd Gwpan Lis Pw (Diwylliannol)

Rhun Bleddyn won the Lis Pw cup



Iolo Tomlinson enillodd Darian y Cyngorydd J. Michael Williams.

Iolo Tomlinson won the Counsellor J. Michael Williams shield.



Yali Banton-Heath enillodd y Ceffyl Du.

Yali Banton-Heath won the black horse award



Taith Blwyddyn 7 i Cadbury World

“Roedd y trip i Cadbury World yn dda iawn ac roeddwn wedi ei fwynhau yn ofnadwy. Roedd rhaid i ni fod yn yr ysgol am saith o’r gloch yn y bore sydd yn andros o gynar. Roedd y daith bws yn un hir iawn ond roedd o yn llawn hwyl.

Pan welodd pawb Cadbury World aethom ni i gyd yn gyffrous. Aethom i fewn i’r adeilad mawr a gweld y siop. Roedd o’n edrych yn gret. Cawsom ein rhoi mewn grwpiau. Es i gyda grwp Mr Lloyd i aros i fynd mewn i’r amgueddfa.

Pan aethom ni i fewn i’r amgueddfa roedd ‘na thema coedwig. Fel roeddem yn mynd ‘mlaen roedd ‘na ffeithiau diddorol am bethau fel cocoa beans a’r bobl oedd yn eu casglu. Aethom rownd y gornel ac roedd y thema wedi newid eto. Y thema tro hyn oedd yr Aztecs a’r “Spanish Invaders”. Roedd ffeithiau diddorol iawn am y rhain yn dweud sut oedd y Sbaenywyr wedi dwyn y siocled yfed, y cocoa beans a hefyd llawer o’r gemwaith.

Nesaf yn y ffactori roedd Bull Street, lle roedd y “White Chocolate House” lle buasai pobl o bob cyfeiriad yn dod i yfed siocled.

Yna roeddem wedi gwyllo ffilm am Cadbury ac roedd llawer o wybodaeth ynddo, fel pryd cafodd y siop cyntaf ei hagor, sef yn y flwyddyn 1824, a lle cafodd y ffatri gyntaf ei hagor, sef Bridge Street. Hefyd dywedwyd hanes pan gafodd y ffatri ei hagor gan y Frenhines Victoria. Yn y ffatri yn Bournville cafodd Mr Cadbury y syniad i yrru un o’r gweithwyr i’r Swistir i gael gweld sut roedden nhw’n gwneud siocled. Pan ddaeth y dyn yn ei ôl dywedodd wrth bawb y dylent ychwanegu llaeth i’r siocled.


Wedyn aethom i mewn i’r ffactori a gweld pob math o siocled yn cael ei wneud fel Wispa, Fredo a Dairy Milk. Fel roeddem yn mynd trwy’r ffatri roedd ‘na reid bach i fynd â ni i rywle arall yn y ffatri. Roedd y reid yn dda ac yn llawn o bethau doniol ac yn y diwedd roedd ‘na

aderyn yn tynnu ein llun. Pan roedd y reid wedi gorffen aethom i weld be oedd rownd y gornel. Roedd ‘na lle i ni flasgu siocled wedi ei doddi a lle i ni ysgrifennu ein enw gyda siocled. Roeddem hefyd yn gallu gweld y gweithwyr yn gwneud wyau Pasg. Roedd yr wyau yn edrych yn grêt. Aethom ni ‘mlaen a gweld llawer o bethau diddorol tan i ni gyrraedd y siop. Yn y siop roedd llawer o bethau fel wyau Pasg, dillad, pensiliau a beiros a llawer mwy, roedd y lle yn **ENFAWR!!!!!!**

Aeth pawb allan i gael cinio wrth y parc a siarad am be roeddent wedi ei gael yn y siop. Daeth yr amser wedyn i ni fynd i mewn i’r adeilad Essence. Mewn un ystafell roedd ffilm, yn dangos sut cafodd y logo glasied a hanner o laeth ei wneud a sut i Cadbury bron stopio gwneud siocled. Yn yr ystafell nesaf roedd lle i ni gael mwy o siocled wedi ei doddi ond rwan gyda rhywbeth ynddo, yn yr un cefais i roedd pop corn. Roedd o yn flasgu iawn. Yn yr ystafell nesaf roedd siop arall ond nes i ddim prynu dim byd felly es i allan at y lleill. Roedd o yn brofiad gwych dros ben.

Aethom ‘nôl i’r cychwyn wedyn i gael llun cyn mynd ‘mlaen i’r bws a mynd ‘nôl i’r ysgol ac adref.”

Ifan Rhys



Adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn brysur dros ben yn yr adran. Mae Blwyddyn 8 a 9 wedi cychwyn eu prosiect CA3 am anturiaethau'r ddraig trwy gychwyn eu gwaith ymchwil a chreu cyflwyniad gyda dogfennau i hysbesebu eu cwmni.

Llongyfarchiadau i BL11 grŵp ail iaith am gwblhau eu gwaith sgiliau cyfathrebu efo TGCh.

Mae'r dosbarth cyfan wedi cael 100% A-C gyda 8 ohonynt wedi mynd ymlaen i wneud y cwrs llawn. Da iawn chi!

Cofiwch:
Clwb TGCh Photoshop yn Yst 6 Pob Dydd Mercher (3:45-5)

Bydd yr ystafelloedd cyfrifiaduron ar agor (Yst 7) o 8-9 pob bore o fis Medi ymlaen ac hefyd ar gael i'w defnyddio ar ôl ysgol rhwng 3:30-5 ddydd Llun i ddydd Iau.

BL10 a BL11: Sesiwn gwaith cwrs OCR lefel 2 pob nos ar ôl ysgol gwnewch yn fawr o'r cyfle i atgyfnerthu eich gwaith i ennill hyd at 4 TGAU!

Information Communication Technology Department

It has been a busy few weeks in the ICT department with Year 8 and 9 starting their KS3 project on dragons pursuing creating a range of advertising material including a powerpoint and a leaflet to advertise their company.

Congratulations to Year 11 Welsh Second language communication skills group. The entire class has achieved a 100% A-C and 8 of the students finished the work early and topped up from the short course to the full award which is equivalent to a GCSE.



*Remember:
ICT Club, Photoshop: Every Wednesday 3:45-5 in Room 6*

The computer rooms (Room 7) will be open 8-9 every morning from September also 3:30-5 after school for pupils to work.

Year 10 & 11: Coursework "top up" sessions after school every day in the week. Take the chance to get up to 4 GCSE's in ICT.

Cynhaliwyd cynhadledd SNAG yn Llandrindod Wells ddydd Mercher diwethaf, sef y 7fed o Fehefin. Roedd yn dda iawn! Aeth y gweithgareddau yn ystod y dydd yn dda a cafwyd nifer o syniadau gan ysgolion eraill sydd yn gwneud yr un math o bethau â ni. Un o'r syniadau hynny oedd dechrau gwerthu potiau salad yn y ffreutur. Mae hyn bellach yn digwydd ac maent yn gwerthu'n dda. Holl bwrpas y dydd oedd i glywed ac i rannu syniadau. Roeddwn i a 2 fachgen arall sef Willow Sanders a Llew Bleddyn yn cael amser i ddangos i'r ysgolion eraill beth yw ein syniadau a phryd rydym ni yn mynd i weithredu arnyn nhw. Er mai dim ond ers mis Ebrill mae'r grwp SNAG wedi ei ffurfio yn YBD roeddem i gyd yn teimlo ein bod wedi llwyddo i gynrychioli'r ysgol yn dda iawn. Wythnos ar ôl y gynhadledd rydym yn barod i greu e-bost newydd i'r SNAG sef snag@broddyfi-hs-powys.co.uk. Mae croeso i unrhyw un gysylltu gyda ni am fwy o wybodaeth. Hoffem ni allu gwneud ein cyflwyniad yn Gymraeg tro nesa.

Jack Evans (Blwyddyn 8)

SNAG



Diwrnod Mabolgampau / Sports Day



Llywelyn



1af

Glyndwr



2il



Dewi



3ydd





BRO DDYFI YN Y GEMAU OLYMPAIDD 2012

Bydd ffilm gan ddisgyblion Ysgol Bro Ddyfi yn ymddangos yn y Gemau Olympaidd yn Llundain 2012. Gellir gweld *Tea Sports*, ffilm fer gan Anna Kommers, Lowri Faber, Keira Rhodes a Tom Reeves mewn sawl stadiwm yn ystod y Gemau, ar ôl iddynt ennill un o'r categorïau yng nghystadleuaeth Brydeinig Film Nation.

Ysbrydoliaeth y ffilm ysgafn yw'r ffaith bod gwlad sy'n cynnal y Gemau Olympaidd yn cael cyflwyno camp newydd yn gystadleuaeth. Wedi llawer o drafod ar ba gam fyddai'r mwyaf Cymreig neu Brydeinig, penderfynwyd mai yfed te fyddai'r gystadleuaeth newydd, gyda'r tim yn bwrw ati i greu ffilm ddogfen ffug. Os nad ydych wedi sicrhau eich tocynnau ar gyfer Llundain 2012, neu'n methu disgwyl, gellir gweld y ffilm ar wefan Film Nation:

<http://www.filmnation.org.uk/watch/film/tea-sports-0>

Neu ewch i moodle.broddyfi.co.uk lle mae yna linc i'r wefan.

Os hoffech chi gopi caled o'r ffilm, cysylltwch â Mr Nic Ros yn yr ysgol.



Dyddiadau Pwysig! Important dates!

18.8.11	CANLYNIADAU LEFEL A / AS RESULTS
25.8.11	Canlyniadau TGAU / GCSE Results
1.9.11 - 2.9.11	Swyddfa ar agor os oes angen prynu gwisg ysgol. / Office open if parents want to purchase school uniform.
5.9.11	Ysgol yn aildechrau i ddisgyblion / The school will re-open to pupils
24.10.11– 28.10.11	Hanner tymor / Half Term
20.12.11	Gwyliau Nadolig / Christmas Holidays

ADRAN CYFRYNGAU / DRAMA

Croesawyd Ysgol Bro Ddyfi a'u prosiect ffilm spOILt i Eisteddfod Genedlaethol Felindre gan Brif Weithredwraig yr Urdd Efa Gruffydd Jones.

Ar gyfer yr achlysur yn Anedd Wen roedd tri o ddisgyblion, bel-lach ym mlwyddyn 10, wedi teithio i Abertawe ar gyfer dangosiad cyntaf fersiwn Gymraeg y ffilm ynghyd â lansiad y pecynnau ad-dysg dwyieithog sydd wedi cael eu darparu gan y disgyblion gyda chydweithrediad Miss Anwen Pughe Jones o'r Adran Ddae-aryddiaeth.

Roedd cryn ddiddordeb yn y ffilm gyda chyfweliad yn cael ei ddarlledu gan y BBC wrth i Owain, Rebecca, Yali a Mr Ros drafod oblygiadau cyffredinol y ffilm yn ogystal â'r deimensiwn Cymraeg.

Yn dilyn y dangosiad fe gafwyd seiat holi gyda chwestiynau gan Ysgol Bryntawe ac Ysgol Llandeilo Ferwallt, disgyblion oedd wrthi yn y Pafiliwn y p'nawn hwnnw yn traddodi Neges Ewyllys Da 2011 ar y thema Rhyfel a Heddwch.

Mae croeso i unrhyw Ysgol sydd â diddordeb mewn arddangos y ffilm gysylltu ag Ysgol Bro Ddyfi i gael copi o'r DVD ynghyd â'r pecyn ad-dysg sy'n cynnwys cynlluniau gwersi.



Wythnos Weithgareddau



Trefnwyd nifer o weithgareddau ac ymwelwyr trwy'r wythnos gan yr Adran Wyddoniaeth. Daeth y *Science Junkie* i mewn i siarad gyda rhai o'r disgyblion a hefyd roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys adeiladu rocedi!



The science department organised a number of activities and visitors during the week including Science Junkie and other exciting workshops including rocket making!



Llongyfarchiadau mawr i Yali / Congratulations to Yali

Llongyfarchiadau mawr i Yali (BL10) am ennill y cyfle i fynd i Cambodia ym mis Hydref fel rhan o raglen deledu Newid Byd. Da iawn ti ac edrychwn ymlaen at glywed yr hanes!

Congratulations to Yali (Yr 10) for winning the opportunity to go to Cambodia in October as part of the Newid Byd TV Programme! Well done you!



BL8 Wythnos Weithgareddau / Year 8 Activities Week

Yn ystod wythnos weithgareddau BL8 cafwyd cyfle i greu gardd a chreu meinciau newydd, hardd i'w defnyddio yn ystod amser cinio ac amser egwyl!



Wythnos Weithgareddau: Menter 2011 Activities Week: Menter 2011

Fel rhan o'r wythnos weithgareddau rhoddwyd y cyfle i ddisgyblion BL9 fynd ati i gychwyn cwmni Menter er mwyn gwerthu cynhyrchion. Roedd rhaid gweithio fel tîm i greu cynnyrch ar gyfer plant ifanc. Roedd pob grwp wedi gweithio'n hynod o galed drwy gydol yr wythnos a llwyddwyd i wneud elw o dros £200 a fydd yn cael ei gyflwyno i **Ambiwlans Awyr Cymru**. Ewch ar wefan Menter i gael blas o'u gwaith!

As part of activities week pupils in year 9, pupils started their own company to sell children's toys in their teams within one week. Every group managed to make a profit and raised over £200 which will be donated to Air Ambulance Wales. Go on the Menter Website to see their work.

Ysgol Bro Ddyfi

Adnoddau adolygu ar-lein:
Moodle.broddyfi.co.uk
Online Revision Resources

Dewis Tim / Select a Team Cystylltwch / Contact Cartref / Home

Jasalido
Mwsh
Custard Creams
Sbloj!
Mega Miiz
Keer-ching!
Batista
Bubble Pop

Breuddwydion
ng Dreams

Ysgol Bro Ddyfi

Dewis Tim / Select a Team Cystylltwch

Jasalido
Mwsh
Custard Creams
Sbloj!
Mega Miiz
Keer-ching!
Batista
Bubble Pop

Breuddwydion
ng Dreams

Ysgol Bro Ddyfi

Fel rhan o wythnos gweithgareddau ddaru Blant BL9 cychwyn Menter i werthu tegan fel tîm ar gyfer plant i godi arian ar gyfer elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

As part of activities week pupils in year 9 started their own company to sell children's toys in their teams to raise money for air ambulance Wales.

© Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth

MENTER.broddyfi.co.uk





Yn ystod y ddau dymor diwethaf, llwyddyd i gynnal 15 gweithgaredd gwahanol fel rhan o amserlen 5x60.

O'r gweithgareddau traddodiadol fel dodgeball a badminton i'r rhai newydd fel syrffio. Mae'r sesiynau yn parhau i redeg dros yr haf felly dewch i ymuno yn yr hwyl!

Yn ystod y tymor diwethaf daeth tim hoci dan do bechgyn Blwyddyn 7 yn ail mewn twrnament yn y Drenewydd; da iawn fechgyn! Bu'r merched rygbi yn Cystadlu'n frwd mewn gemau yn erbyn Llanidloes a Llanfair Caereinion, da iawn ferched!

Hefyd bu disgyblion y chweched, yn enwedig Jac Wyn Williams, Tomos Wyn Williams, Lisa Waters, Zoe Fleming, Llion Davies a Rhodri Evans yn brysur yn gwir-

foddoli i redeg sesiynau ac i helpu gyda diwrnodau Dragon Sport gyda disgyblion yr ysgolion Cynradd. Bu Tomi Evans, Sian Breese-Griffiths, Elin Evans, Sara Lewis a Ryan Jones hefyd yn helpu gyda diwrnod cyfeiriannu a thrawsgwlad a gynhaliwyd yn yr yr ysgol... a da iawn Tomi am redeg pob ras trawsgwlad gyda'r disgyblion er mwyn dangos y ffordd gywir o gwmpas y cwrs!! Diolch i bob un o'r gwirfoddolwyr am eu cymorth yn ystod y flwyddyn.

Newyddion arall... Llongyfarchiadau i Siân Breese-Griffiths (Blwyddyn 10) a Dylan Jones (Blwyddyn 11) sydd wedi cael eu dewis fel llysgenhadwyr ifanc chwaraeon yr ysgol. Mae pob ysgol yn Powys wedi penodi 2 disgybl i helpu hybu chwaraeon o bob math yn yr ysgolion. Bydd mwy o wybodaeth am hyn yn y dyfodol ond os oes gennych unrhyw gwestiynau gofynnwch i Sian a Dylan.

Trosodd gwelir llun o'r disgyblion syrffio yn ystod eu sesiwn gyntaf yn dysgu sut i sefyll yn gywir ar y bwrdd.



**Ymunwch â ni
ar Twitter!
@BroDdyfi**

follow us on
twitter




**Gwefannau Eraill /
Usefull links**

broddyfi.co.uk

moodle.broddyfi.co.uk

email.broddyfi.co.uk

Intranet.broddyfi.co.uk


 **Ysgol Bro Ddyfi
broddyfi**

Llongyfarchiadau i grwp dawnsio Brotastig ar ennill 1af yn y dawnsio disgo/stryd BL7-9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe. Gwych
yesterday · reply · retweet · favorite

Llongyfarchiadau mawr i Yali (BL10) am ennill y cyfle i fynd i Cambodia ym mis Hydref fel rhan o raglen deledu Newid Byd. Da iawn ti!
yesterday · reply · retweet · favorite

Congratulations to Yali (Yr 10) for winning the opportunity to go to Cambodia in October as part of the Newid Byd tv Programme!
5 days ago · reply · retweet · favorite

Congratulations to the Brotastig Dance group on winning 1st Prize in the disco/street dance competition in the Urdd Eisteddfod in Swansea!
5 days ago · reply · retweet · favorite

 Join the conversation

Cymdeithas Malddwyn

GWOBRAU VAUGHAN DAVIES PRIZES
(am DRAETHAWD yn y GYMRAEG)
(for a WELSH ESSAY)

- Group/Adran A 1. Rhun Bleddyn
 2. Beca Jones
- Group/Adran B 1. Llew Bleddyn
- Group/Adran C 1. Lisa Waters
 2. Gwenno Griffiths



Technoleg / Technology

Llongyfarchiadau mawr i grwp Mr Owen bl.8 am offen eu tegan mecanweithiol yn Technoleg. Gwaith arbennig o dda unwaith eto!

Congratulations to Mr Owens Yr 8 Group who finished their mechanical toy! Excellent work as always!



Race for Life



Llongyfarchiadau i'r criw "race for life" am hel swm fawr o arian ar gyfer yr achos da yma! Bu nifer o staff a disgyblion yr ysgol yn rhedeg a hynny er mwyn codi arian at elusen Cancr.

Congratulations to the Race For Life girls for running and raising money for this worthy cause. Many pupils and staff members took part to raise a substantial sum. Well done!

Celf / Art

Fel rhan o'r cwrs TGAU Celf bu criw wrthi'n ddiwyd yn peintio giataiau'r Plas a'u hatgyweirio i'w hen brydferthwch! Da iawn chi!

As part of their GCSE Art course the crew went out to restore the gates for the "Plas" back to their former glory! Excellent work Girls!




Llongyfarchiadau Mawr Brotastic!

Ar ddydd Mercher 1af o Fehefin aethom ni, Brotastig, i Abertawe i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Roeddem ni mor hapus i gael siawns i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ar ôl dawnsio yn y rhagbrawf a gweld yr holl gystadleuwyr eraill doedden ni ddim yn credu bod gennym ni siawns i gael llwyfan, felly pan alwon nhw'n henwau ni aethom ni'n wyllt. Roeddem ni ar ben ein digon. Roedd cystadlu ar y llwyfan yn deimlad anhygoel. Pan gyhoeddod nhw ein bod ni wedi cael cyntaf roedden ni mor hapus. Roedd Jemma hyd yn oed yn crio! Rydem ni gyd eisiau diolch yn fawr i Lisa, ein hyfforddwraig.

Bethany Vaughan Byrne, Jemma Hennighan, Lowri Jones, Sioned Owen, Gwawr Jones, Alis Fleming, Kirsty Davies, Lliwen Jones a Jo Thomas



Congratulations BroTastic for winning in the Urdd Eisteddfod!



YSGOL BRO DDYFI

Tel: (01654 70 2012)

Ffacs: (01654 70 2994)

E-bost: office@broddyfi-hs.powys.sch.uk

Wefan: www.broddyfi.co.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.